Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol:

## Canllawiau gwneud Cais ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Tachwedd 2021

Paratowyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ei ddiben yw darparu canllawiau wrth wneud cais am gyllid drwy'r Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd Arfordirol.

Ar gyfer ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, o fewn Llywodraeth Cymru drwy e-bostio:
**RisgLlifogyddArfordirol@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron WG44006 ISBN digidol 978-1-80391-369-8

# Canllawiau - Grant Refeniw
# Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Awdurdodau Lleol

**Mae'r canllawiau hyn ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n gwneud cais am gyllid refeniw drwy'r Grantiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM).**

## Cyflwyniad:

Mae Cangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i helpu i gefnogi Awdurdodau Lleol â'u gweithgareddau refeniw yn y maes.

## Beth sy'n gymwys?

Gallai gweithgareddau cymwys (na fyddai'n gymwys fel arall ar gyfer cyllid cyfalaf FCERM) gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gweithgareddau o dan y ddeddfwriaeth briodol sy'n ymwneud â llifogydd, yr arfordir neu ddraenio, gan gynnwys Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (yn cynnwys adroddiadau Adran 19), Deddf Adnoddau Dŵr, Deddf Diogelu'r Arfordir neu Ddeddf Draenio Tir. Dylai'r gwahanol weithgareddau sydd i'w cynnal gael eu rhestru ar wahân o fewn y cais.

- Gweithgareddau neu fesurau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer FCERM yng Nghymru.

- Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â pharatoi neu gyflawni Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a/neu Cynlluniau Rheoli Traethlin – dylai'r gwahanol weithgareddau sydd i'w cynnal gael eu rhestru ar y cais.

- Nodi a hybu cyfleoedd i gynnal gweithgareddau rheoli llifogydd yn naturiol, yn enwedig lle cynigir buddiannau ehangach fel cyfoethogi bioamrywiaeth.

- Gwaith maes a chodi ymwybyddiaeth am lifogydd gan gynnwys cynlluniau i gyfathrebu'r risgiau a chryfhau cymunedau i allu eu gwrthsefyll.

- Rhybuddio a hysbysu cymunedau os bydd llifogydd posib.

- Gwaith llai a/neu gynnal a chadw asedau ar raddfa fach, archwilio a chofnodi. Gallai'r rhain fod yn asedau sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol ai peidio.

- Gwaith mapio a chronfa ddata asedau. Mae'n rhaid i unrhyw waith casglu data ar asedau gael ei wneud mewn ffordd fel y gall fwydo i'ch cofrestr leol o asedau o dan Adran 21 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr **A'R** Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall hyn gynnwys meddalwedd a thrwyddedau ar gyfer storio data mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol.

- Costau staff sy'n gysylltiedig â gwaith rheoli perygl llifogydd ac arfordirol.

- Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff sy'n ymwneud â gwell darpariaeth o weithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Cysylltwch â'r Gangen Llifogydd os oes gennych gwestiynau am y gweithgareddau cymwys: RisgLlifogyddArfordirol@llyw.cymru

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau nad ydynt yn gymwys am gyllid o dan y grantiau Refeniw FCERM:

- Gwaith cyfalaf (dylai'r holl waith cyfalaf gael ei ystyried ar gyfer cyllid drwy raglen grantiau cyfalaf FCERM).

- Gwaith modelu sy'n gysylltiedig â chynllun neu leoliad (dylai hyn gael ei gyllido gan gyfalaf).

- Gwaith (newydd neu wella, trwsio neu gynnal a chadw) ar asedau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid ym memorandwm grant FCERM h.y. y rhai nad ydynt yn lleihau risg i gartrefi a busnesau.

- Prynu offer.

**Ceisiadau:**
Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno drwy RPW Ar-lein gan nodi'r gweithgareddau unigol i'w cynnal.

Lle bo'n briodol, rhowch nifer y cartrefi a'r busnesau sy'n elwa ar bob gweithgaredd. Gallai hyn gynnwys y nifer sy'n elwa ar waith cynnal a chadw neu weithgareddau codi ymwybyddiaeth am lifogydd. Efallai na fydd hyn yn briodol ar gyfer pob gweithgaredd ond bydd yn helpu i gefnogi ein hadroddiadau yn unol ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gefnogi cartrefi drwy ein buddsoddiad.

Peidiwch â chynnwys unrhyw eiddo sy'n elwa ar fuddsoddiad cyfalaf FCERM Llywodraeth Cymru, dylid cynnwys y rhain yn eich cais a'ch hawliadau am y cynllun cyfalaf.

**Hawliadau:**
Gwahoddir hawliadau am y cyfnodau o fis Ebrill i fis Medi, ac o fis Hydref i fis Mawrth ar ddiwedd pob cyfnod. Gofynnir am broffiliau cyllido u pan fyddwch yn derbyn y contract ar gyfer y grant hwn.

Dylai'r hawliadau gynnwys crynodeb o sut mae'r buddion a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni, a sut mae'r nodau llesiant a ragwelir yn cael eu cyflawni.

**Rhagor o wybodaeth/manylion cyswllt:**
I gael rhagor o wybodaeth am y Grantiau Refeniw FCERM, cysylltwch â'r Gangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn: RisgLlifogyddArfordirol@llyw.cymru